Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cyllid Pontio Ôl-16
## i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach

## Nodyn Cyfarwyddyd 2025/26

**Fersiwn 1 2025/26:**
**Tachwedd 2025**

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys


1. Y Cefndir ........ 3
2. Diben y cyllid ........ 3
3. Canlyniad ........ 4
4. Cynnwys y Rhaglen ........ 4
   a) *Chweched Dosbarth Awdurdodau Lleol* ........ 4
   b) *Colegau Addysg Bellach* ........ 4
5. Meini Prawf ........ 5
6. Cyllido, Monitro a Gwerthuso ........ 5
7. Manylion Cyswllt ........ 6

## 1. Y cefndir

Gan gyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar [Pontio Ôl-16 a Rhannu Data yn Effeithiol](#) (2019), dylai Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) ac ysgolion gydweithio i roi cyngor ac arweiniad i ddysgwyr ar lwybrau addysgol a nodau gyrfa.

Mae Estyn wedi argymell y byddai er lles pennaf pob dysgwr 16-19 oed i bob dysgwr ym Mlynyddoedd 10 ac 11 yn derbyn gwybodaeth, cyngor ac arweiniad di-duedd ynghylch yr holl opsiynau ôl-16 sydd ar gael yn eu hardal leol. Mae Estyn hefyd yn adrodd bod perthnasoedd rhwng ysgolion sydd heb chweched dosbarth ar wahân a SABau yn gryf ar y cyfan, a bod cydweithrediad rhwng yr ysgolion hyn fel arfer yn cynnwys llawer o gyd-gynllunio gweithgareddau dilyniant a phontio buddiol. Bydd hyn yn helpu dysgwyr i wneud dewisiadau deallus o blith ystod eang o bynciau academaidd a chyrsiau galwedigaethol, gan bontio'n llyfn wedyn i'r cam dysgu nesaf.[1]

Bydd dysgwyr yn elwa ar ryngweithio'n rheolaidd â darparwyr ôl-16 lleol i ddysgu am y cyrsiau sydd ar gael ac i drafod eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Profwyd bod pontio dysgwyr yn llwyddiannus yn creu cynnydd dramatig mewn cyfraddau cadw ac o ran dilyniant i addysg bellach a hyfforddiant, ac i gyflogaeth gynaliadwy yn y pen draw[2] [3].

Gan hynny, cytunwyd ar £3m pellach o gyllid pontio dysgwyr i golegau AB ac ysgolion â chweched dosbarth ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25.

## 2. Diben y cyllid

Diben y cyllid yw sicrhau bod dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd sy’n cwmpasu’r holl opsiynau ôl-16 sydd ar gael yn eu hardal leol.

Dylai ysgolion ddefnyddio’r cyllid i gydweithio â SABau Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol, cyflogwyr ac/neu unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall er mwyn darparu gweithgareddau dilyniant a phontio er mwyn helpu dysgwyr i wneud dewisiadau deallus a throsglwyddo’n llyfn i’r cam nesaf ar eu llwybr addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Dylai SABau ddefnyddio’r cyllid i gydweithio ag ysgolion i roi cyngor ac arweiniad a chynnal gweithgareddau dilyniant a phontio er mwyn helpu dysgwyr i wneud dewisiadau deallus a phontio'n llyfn i'r cam nesaf ar eu llwybr addysg.

---

[1] Estyn. 2022c. *Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru.* Caerdydd: Estyn [Ar-lein] Adolygiad o’r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru (llyw.cymru)

[2] Llywodraeth Cymru (LlC). 2018a. *Pontio Ôl-16 a Rhannu Data yn Effeithiol: Canllaw Byr i Ysgolion a Darparwyr Dysgu Ôl-16.* https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/pontio-ol-16-a-rhannu-data-yn-effeithiol-canllaw-byr-i-ysgolion-a-darparwyr-dysgu-ol-16.pdf (llyw.cymru)

[3] Yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES).2007. Raising Expectations: Staying on in Education and Training Post-16. Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau. Raising expectations: staying in education and training post-16 (www.gov.uk)

## 3. Canlyniad

Bydd dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn gallu gwneud penderfyniad deallus ynghylch y cam nesaf ar eu llwybr addysg, hyfforddiant neu am y cam nesaf ar eu llwybr addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

## 4. Cynnwys y rhaglen

### *a)* ***Chweched Dosbarth Awdurdodau Lleol***

Dyma enghreifftiau o dystiolaeth ymgysylltu:

- Dysgwyr Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11 sy’n mynd i goleg AB lleol, Darparydd Hyfforddiant Annibynnol neu unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall, lle cânt gyfle i ddysgu mwy am y gwahanol gymwysterau a llwybrau academaidd a galwedigaethol.

- Dysgwyr Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11 sy'n mynd i goleg AB lleol i gymryd rhan mewn 'diwrnod blasu' i roi cynnig ar eu hoff bynciau mewn sesiwn blasu bwrpasol.

- Dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n cymryd rhan mewn rhaglen bontio dros wyliau’r haf fydd yn eu galluogi i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â'u cyfoedion a staff y coleg.

- Dysgwyr Blwyddyn 10 neu 11 yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau meistr neu weithdai rhyngweithiol ar bwnc penodol gyda choleg, Darparydd Hyfforddiant Annibynnol neu unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall, i'w cyflwyno i ystod eang o gymwysterau neu yrfaoedd.

- Cynrychiolwyr o SAB, Darparydd Hyfforddiant Annibynnol, neu unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall, yn ymweld â'r chweched dosbarth mewn ysgol ac yn darparu gwybodaeth drwy gyflwyniadau a phecynnau pontio ar yr ystod o lwybrau a rhaglenni dysgu sydd ar gael.

- Ymweliad gan Flwyddyn 10 neu Flwyddyn 11 â ffair yrfaoedd.

### *b)* ***Colegau Addysg Bellach***

Dyma enghreifftiau o dystiolaeth ymgysylltu:

- 'Diwrnodiau blasu' lle caiff dysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 gyfle i roi cynnig ar eu hoff bynciau mewn sesiwn flasu bwrpasol.

- Dosbarthiadau Meistr neu weithdai rhyngweithiol lle bydd dysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn darlithoedd byr pwnc-benodol neu weithdai rhyngweithiol sy'n gysylltiedig ag ystod eang o gymwysterau neu yrfaoedd yn y meysydd hyn.

- Rhaglenni pontio'r haf lle bydd dysgwyr Blwyddyn 11 yn gallu cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyrsiau galwedigaethol wrth feithrin perthnasoedd cadarnhaol â'u cyfoedion a staff y coleg.

## 5. Meini prawf

Rhaid i ysgolion a SABau gadw at y canllawiau a ddarperir yn y nodyn cyfarwyddyd hwn.

**Dylai ysgolion sicrhau:**

- Bod yr arian yn cefnogi pob dysgwr, heb ffafrio na rhoi pwyslais ar unrhyw lwybr penodol.
- Bod gweithgareddau a mentrau yn ystyried dewis iaith y dysgwr (Cymraeg neu Saesneg) a'r iaith a ddefnyddir ganddo i ddysgu.
- Er y gellir defnyddio cyllid ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion Chweched Dosbarth eraill, rhaid i ysgolion hefyd ddangos tystiolaeth o ymgysylltu â darpariaeth y tu allan i amgylchedd ysgol i fod yn gymwys am gyllid.

**Dylai sefydliadau addysg bellach sicrhau:**

- Bod cydweithio'n digwydd rhwng ysgolion a SABau.
- Bod yr arian yn cefnogi pob dysgwr, heb ffafrio na rhoi pwyslais ar unrhyw lwybr penodol.
- Bod pob dysgwr yn cael y cyfle i ymweld â SAB lleol i ddeall yr ystod o gyrsiau a'r hyfforddiant sydd ar gael.
- Bod gweithgareddau a mentrau yn ystyried dewis iaith y dysgwr (Cymraeg neu Saesneg) a'r iaith a ddefnyddir ganddo i ddysgu.

## 6. Cyllido, monitro a gwerthuso

Telir y grant hwn yn llawn ym mis Rhagfyr 2025 ar gyfer y cyfnod 1 Tachwedd 2025 i 31 Awst 2026. Dylai’r holl wariant cymeradwy gael ei gwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2026.

Bydd monitro ac archwilio yn cyfrannu at sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cymhwyso mewn modd cyson ac yn helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol. Drwy dderbyn y cyllid hwn, rydych yn cytuno i gydymffurfio â'r gofynion Monitro a Gwerthuso (a gyhoeddir mewn dogfen ar wahân) gan ddisgrifio'r modd y cafodd y cyllid ei wario erbyn y dyddiad cau penodedig. Fel arall, bydd y cyllid yn cael ei hawlio'n ôl. Rydych chi hefyd yn cytuno i gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch monitro a gwerthuso pellach a gomisiynir gan Medr mewn perthynas â'r cyllid hwn.

Gall Awdurdodau Lleol a SABau ddewis cadw hyd at 3% o gyfanswm y hawliad i roi cyfrif am gostau'n gysylltiedig â gweinyddu'r grant hwn.

Lle bo'r gwariant yn llai na 100% o'r dyraniad, bydd unrhyw swm sydd heb ei ddefnyddio yn cael ei hawlio'n ôl yn llawn.

## 7. Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau'n gysylltiedig â chynnwys y canllawiau hyn, cysylltwch â Medr yn BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**